# CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE

**(Remotely via Teams / Hybrid meeting in Council Chamber)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 6 Medi 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.James** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | Beynon, G.Morgan, Sparks, Holley, A.Dacey a/ac M.Harvey |

---

## 1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Brian Hall a Jan Curtice, a Jonathan Burnes, Cyfarwyddwr Rhaglenni.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3. ADRODDIADAU MONITRO CHWARTEROL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Phil Ryder, Rheolwr Portffolio, a dywedodd fod dwy elfen iddo; y dangosfwrdd a chrynodeb a ddarparwyd gan y prosiectau.

Amlinellodd y data a gasglwyd o fewn y dangosfwrdd, a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Roedd yr agweddau allweddol o'r prif raglenni a'r prosiectau fel a ganlyn:

- Canolfan Dechnoleg y Bae; roedd yn parhau i gymryd ymweliadau gan ddarpar denantiaid, gan obeithio gweld tenantiaid yn meddiannu'r rhain a llenwi'r adeilad yn fuan.

- Cronfa Datblygu Eiddo; fe'i lansiwyd ym mis mynegiannau o ddiddordebau wedi'u cwblhau ac roeddent yn cael eu hadolygu gan dîm y prosiect.
- Prosiect Morol Doc Penfro (PMDP); roedd yr elfen isadeiledd wedi cychwyn gyda datblygiad y llithrfa. Roedd y problemau ariannol oherwydd y newid i ofynion y llithrfa bellach wedi'u goresgyn.
- Parth Arddangos Sir Benfro (PASB); dyfarnwyd cwmpasu amgylcheddol a chaffael technegol, ac roedd ffrydiau gwaith technegol ac amgylcheddol ar waith.
- Ardal Prawf Ynni Morol (META); Cynhaliodd staff y prosiect META weithdy ar gyfer 10 myfyrwyr peirianneg blwyddyn 10 yng Ngholeg Sir Benfro gan gynyddu ymwybyddiaeth o'r diwydiant a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn Sir Benfro.
- Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol (MEECE); roeddent wedi rhoi cyflwyniad i Fforwm Gweithgynhyrchu ac Arloesedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Hefyd cyflwynwyd papur ganddynt yng Nghynhadledd Peirianneg Cefnforoedd, Alltraeth a'r Arctig (OMAE) yn Hamburg.
- Pentre Awel; Cymeradwywyd y Cais Materion a Gadwyd yn Ôl (RMA) yn unfrydol yn y Pwyllgor Cynllunio ym mis Mehefin 2022. Mae partneriaeth strategol â Phrifysgol Caerdydd ar waith i arwain ar swyddogaethau arloesedd a datblygu busnes, gan adeiladu ar eu partneriaeth a'u harbenigedd arloesedd.
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau; Enillodd tîm 'Y Tu Hwnt i Frics a Morter' Cyngor Abertawe glod mawr yng nghynllun Gwobrau Go y DU gyfan am eu gwaith ar brosiect Bae Copr. Roedd safle 71/72 Ffordd y Brenin yn parhau ac ar y trywydd iawn.
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (HAPS); roedd cytundebau ariannu bellach ar waith, a chawsant eu hadolygiad perfformiad blynyddol gyda thîm Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf 2022. Gwnaed argymhellion yn dilyn hyn, sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.
- Rhaglen Isadeiledd Digidol; roedd nifer o arbenigwyr wedi'u penodi ac roedd yr amserlenni cyflwyno wedi'u gorffen.
- Prosiect Campysau; roedd tri aelod pellach o'r tîm wedi'u cyflogi i gefnogi'r prosiect, ac roedd yr asesiad ecolegol wedi'i gynnal ar safle Lôn Sgeti.
- Yr Egin; roedd y broses Hysbysiad Adnabod Newid wedi dechrau'n ffurfiol. Roedd yr ateb cyflwyno a ffefrir ar gyfer cam dau'n cael ei drafod ar hyn o bryd i sicrhau bod yr hyn y bwriedid ei gyflwyno'n addas at y diben, gan fod yr achos busnes wedi'i ysgrifennu tua phum mlynedd yn ôl.

- Sgiliau a Thalent; Mae'r cais cyntaf am y prosiect peilot wedi'i adolygu gan y Grŵp Datrys Sgiliau sydd wedi argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo i'r Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (PDSRh). Yn dilyn trafodaeth y PDSRh fe'i cymeradwywyd.

Mewn ymateb i ymholiadau gan Aelodau Craffu, cadarnhawyd bod cam un Yr Egin wedi ei adeiladu, ond roedd angen lle ychwanegol ar gyfer cam dau, ac roedd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Roedd yn hanfodol sicrhau bod y lle yn addas at y diben a sicrhau bod y niferoedd cyflogaeth a thwf y sector yn cael eu bodloni gan yr adeilad a ddarparwyd.

**PENDERFYNWYD:** Y byddai'r pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

## 4. ADRODDIAD MONITRO ARIANNOL

Richard Arnold, Rheolwr Cyllid, fu'n cyflwyno ac yn amlinellu'r adroddiad. Roedd yr adroddiad yn manylu ar sefyllfa alldro diwedd blwyddyn ragweledig y Cyd-bwyllgor a'r Gronfa Buddsoddi mewn Portffolios.

Cododd aelodau'r Pwyllgor Craffu bryderon ynghylch yr ymyriadau yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, y gwahaniaethau ariannol a brofwyd oherwydd yr oedi o ran caffael a thendro ar gyfer adeiladu, a holwyd a ellid darparu'r portffolio o fewn y 15 mlynedd a drefnwyd ai peidio. Cadarnhawyd y byddai effaith COVID-19, chwyddiant a'r cynnydd mewn costau adeiladu yn cael effaith; fodd bynnag, roedd cyfran fawr o'r portffolio eisoes yn cael ei gyflwyno, a fyddai'n helpu i liniaru hyn. Awgrymwyd hefyd pe bai hyn yn bryder i'r Pwyllgor Craffu, y gellid ei ychwanegu at y dangosfwrdd i'w fonitro.

**PENDERFYNWYD:** Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

## 5. ARCHWILIO CYFRIFON

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid yr adroddiad ac esboniodd fod yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r Datganiad o Gyfrifon yn dangos darlun gwir a theg o sefyllfa Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar 31 Mawrth 2022.

Crynhodd y swyddog ganfyddiadau'r archwiliad a gynhaliwyd, fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:** Y byddai’r pwyllgor yn nodi’r adroddiad.

## 6. DATGANIAD O GYFRIFON Y CYD-BWYLLGOR AR GYFER 2021/22

Cyflwynodd Richard Arnold, Rheolwr Cyllid, yr adroddiad ac esboniodd mai Cyngor Sir Gâr, fel y Corff Atebol, oedd yn gyfrifol am stiwardiaeth ariannol Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Dyma’r ail flwyddyn y bu'n rhaid i Gyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe lunio Datganiad o Gyfrifon yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd yn 2018.

**PENDERFYNWYD:** Y byddai’r pwyllgor yn nodi’r adroddiad.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/2022

Amlinellodd Phil Ryder, Rheolwr Portffolio, yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o weithgarwch allweddol i'r Cyd-bwyllgor Craffu ar gyfer y 12 mis diwethaf a gweithgarwch arfaethedig ar gyfer y 12 mis nesaf ynghyd ag astudiaethau achos o waith wedi'i gwblhau ac agweddau amrywiol eraill sy'n ymdrin â chyflawniadau cyflawni a manteision/canlyniadau arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:** Y byddai’r pwyllgor yn nodi’r adroddiad.

## 8. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**